
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Aberffraw i Borth Cwyfan, Ynys Môn

## Gan gerdded heibio i un o safleoedd mwyaf eiconig a chyfareddol Ynys Môn, yn sicr mae Porth Cwyfan yn lle dihafal i dynnu llun.

*"Dyma daith gerdded wirioneddol arbennig. Pa bryd bynnag yr ydw i'n troedio'r rhan hon o Lwybr Arfordir Cymru, rydw i'n rhyfeddu at yr harddwch a'r tawelwch. Profiad sydd ar ei orau ar noswaith glir o haf!"*

**GRUFF OWEN, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a Diwedd:

Pentref Aberffraw.

### Pellter:

3 milltir/4km.

### Ar hyd y ffordd...

Byddwch yn cychwyn ym mhentref hanesyddol Aberffraw. Mae'n lle tawel heddiw, ond rhwng y nawfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg arferai Tywysogion Gwynedd gynnal llys yma, gan wneud y lle'n 'brifddinas' Gogledd Cymru.

Cerddwch i'r de-orllewin, ac wrth i chi ddringo pentir Trwyn Du byddwch yn mynd heibio i olion tomen gladdu o'r flwyddyn 1500 CC. Mae gan y domen gladdu hon batrwm cymhleth o gerrig o'i hamgylch (mae modd gweld rhai o'r rhain hyd heddiw yn y glaswellt), ac mewn gwirionedd fe'i hadeiladwyd ar safle anheddiad llawer hŷn y credir ei fod yn dyddio i oddeutu 7000 CC.

Ym Mhorth Cwyfan fe welwch olygfa hudolus Eglwys Sant Cwyfan ar ynys fechan a elwir yn Cribinau, dafliad carreg oddi ar yr arfordir. Adeg penllanw, caiff yr adeilad bach ei wahanu'n llwyr oddi wrth y tir mawr, a chaiff ei amddiffyn rhag y dŵr gan y morgloddiau cadarn o'i amgylch. Pan fydd y llanw ar drai, gallwch fynd yno am dro i gael gwell golwg ar y lle.

Cafodd yr adeilad ei adeiladu'n wreiddiol yn y ddeuddegfed ganrif, ond mae cyfran helaeth o'r hyn a welir heddiw yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Mae ambell wasanaeth yn dal i gael ei gynnal yno ar y Sul o dro i dro.

### Angen gwybod:

Mae digonedd o gyfleusterau i'w cael yn Aberffraw, yn cynnwys mannau parcio, caffi, tafarn a siop.

Ceir bysiau (rhif 25 a 42) i bentref Aberffraw.

Gweler yr amserlenni ar wefan Cyngor Sir Môn: https://www.anglesey.gov.uk/en/Residents/Parking-roads-and-travel/Public-transport/Bus-timetables.aspx